BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL
**GOGLEDD CYMRU**
**NORTH WALES**
REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

# Munudau Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

**9 Rhagfyr 2022**

**9:00 am to 11:00 pm**

## dros Zoom

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | Cyng Dilwyn Morgan (Cadeirydd), Alwyn Jones, Ann Woods, Catrin Roberts, Cyng Elen Heaton, Cyng Christine Jones, Cyng Alun Roberts, Cyng Liz Roberts, Dylan Owen, Estelle Hitchon, Ffion Johnstone, Gill Harris, Dr Nick Lyons, Jenny Williams, Dr Lowri Brown, Lucy Reid, Mary Wimbury, Neil Ayling, Shan Lloyd Williams (yn bresennol o 9:30 am), Sian Tomos, Siobhan Edwards, Teresa Owen (yn bresennol o 10:10am), Trudy Ellis |
| Ymddiheuriadau: | Cyng John Pritchard, Fon Roberts, Meinir Williams-Jones, Nicola Stubbins, Dave Hughes, Ricki Owen, Sam Parry |
| Hefyd yn bresennol: | Siobhan Gothorp, Rheolwr Busnes Rhanbarthol (RIF) Oedolion a Chyfalaf |

### 1 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.

### 2 Adroddiad Blynyddol Fforwm Mwy Na Geiriau Gogledd Cymru 2021-22f

Cyflwynodd FJ Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mwy Na Geiriau 2021-22, a ysgrifennwyd gan Morwena Edwards, cyn gadael ei swydd yn yr Haf 2022.

Nododd FJ, Cadeirydd Fforwm Mwy Na Geiriau (MNG) fod y Fforwm wedi bod mewn lle da ers sawl blwyddyn, gyda phresenoldeb da gan yr holl bartneriaid. Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed yn y flwyddyn ddiwethaf ym maes MNG yng Ngogledd Cymru, gan archwilio technoleg ddigidol, gwaith integredig a hyfforddiant a chyrsiau Cymraeg, ac yn tynnu sylw at y cyd-destun cenedlaethol sydd wedi siapio'r drafodaeth o fewn y Fforwm. Yn dilyn Covid-19, mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi cyflwyno cyfle i ailddechrau'r gwaith pwysig hwn i sicrhau bod cleifion yn derbyn y cynnig gweithredol ac yn derbyn gwasanaeth yn yr iaith a ffefrir ganddynt.

Roedd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (BPRhGC) yn cytuno y dylid cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Fforwm Mwy Na Geiriau Gogledd Cymru ar gyfer 2021-2022.

## 3 Gwerthusiad Cronfa Gofal Canolraddol

Bydd yr eitem hon yn cael ei gohirio tan y cyfarfod ym mis Ionawr.

## 4 Cynllun y Gaeaf / Cynyddu Capasiti Cymunedol

Hysbysodd CR bod PBC a'r ALl wedi darparu Cynllun ar y cyd ar gyfer y Gaeaf ers 3 blynedd mewn cydweithrediad â chyllid LlC. Mae Cynllun y Gaeaf ar gyfer 2022-2023 wedi'i greu ar y cyd ac yn cynnwys gwaith i Gynyddu'r Capasiti Cymunedol a Chynllun Gwydnwch BIPBC. Roedd y dogfennau atodol yn cyflwyno trosolwg o'r holl drefniadau ar draws y rhanbarth, gan ddarparu sicrwydd i'r BPRh a LlC bod cynllunio'n cael ei wneud ar draws y rhanbarth mewn perthynas â rheoli pwysau cyfnod y gaeaf. Er bod LlC wedi nodi na fydd rhagor o gyllid ar gael yn y rhanbarth eleni, mae elfen ALl y cynllun yn cael ei weithredu os bydd cyllid ar gael gan LlC ar ddechrau 2023.

Cododd MW ddau bwynt:

- Pryder nad yw gwaith o ran staffio a chynyddu gweithlu Gofal Cymdeithasol yn cael ei gyflawni'n ddigonol mewn partneriaeth gyda darparwyr cofrestredig, gyda risg o ddad-sefydlogi'r gweithlu, a chynnig ymgysylltiad arfaethedig pellach o ran sut y gallai hyn weithio.
- I ddatrys pryderon, disgwylir i'r rhanbarth gydweithio gyda'r holl sectorau a nodi nad yw'r sector ehangach yn cael ei ystyried o fewn Cynllun Gwydnwch PBC, sef yr adran ar 'Gynnal ein gwasanaethau gofal cymdeithasol'.

Nododd aelodau BPRhGC eu pryder o ran prinder staff o fewn y gwasanaethau darparwyr, a phwysigrwydd gweithio ar y cyd i ddatrys y problemau hyn, heb ddad-sefydlogi'r gweithlu.

Hysbysodd CR bod Cynyddu Capasiti Cymunedol a Chynllun Gwydnwch y Gaeaf PBC wedi'u cynnwys i'w hystyried.

Roedd BPRhGC yn cytuno y dylid mabwysiadu Cynllun y Gaeaf a chyflwyno Cynllun y Gaeaf i LlC, ar gais, os bydd hyn yn ofyniad yn y dyfodol.

## 5 Cynllun Cyllid Niwroddatblygiadol

Cyflwynodd CR y wybodaeth ddiweddaraf ar y cyllid ychwanegol sydd ar gael, gan geisio cymeradwyaeth ôl-weithredol gan BPRhGC ar y cynnig i ddefnyddio'r cyllid yng Ngogledd Cymru.

Mae LlC wedi cadarnhau cyllid dros 3 blynedd gyda Gogledd Cymru'n derbyn £312k yn y flwyddyn gyntaf, i ganolbwyntio'n benodol ar leihau pwysau o fewn y Gwasanaethau Oedolion a Phlant drwy leihau amseroedd aros a chynyddu nifer

yr asesiadau ASD a chapasiti rhagnodi ADHD. Darparwyd dadansoddiad llawn o sut mae Gogledd Cymru yn cynnig defnyddio'r cyllid.

Cadarnhaodd GH bod y cyfraniad cyllid yn cael ei groesawu ac y bydd yn cyfrannu rhywfaint at liniaru rhai o'r problemau presennol yn y gwasanaeth.

Roedd BPRhGC yn cytuno i gefnogi'r cynnig i ddefnyddio Cyllid Rhaglen Gwella Niwroddatblygiadol.

## 6 Llithriant y Gronfa Integreiddio Ranbarthol (RIF)

Cyflwynodd SG y wybodaeth ddiweddaraf am RIF at ddiwedd Hydref 2022, gan nodi cynllunio ar gyfer llithriant a chynlluniau a gytunwyd i'w blaenoriaethu erbyn diwedd Ch3.

Nododd SG bod gwariant wedi'i nodi yn 42.6% ar ddiwedd Hydref gyda £12,848,018 wedi'i wario allan o £30,191,588, tanwariant o £3M yn erbyn y rhagolwg o £15,758,439. Nid yw cyllid RIF yn cynnwys grant Gofalwyr di-dâl, isadeiledd na chostau rheoli prosiect sy'n cael eu hariannu gan LIC ac yn £31,191,588.

Mae gwaith sylweddol yn cael ei gyflawni ar raglen RIF o dan y chwe Model Gofal Cenedlaethol, gyda 40 o gynlluniau rhanbarthol trosfwaol ac mae 154 o elfennau partner. Mae rhai elfennau yn nodi tanwariant gyda phenderfyniad o ran cynlluniau llithriant wedi'i gytuno gyda gwariant llawn wedi'i ragweld, mae elfennau eraill yn nodi tanwariant sylweddol lle bo penderfyniadau ar lithriant yn cael eu trafod ac mae partneriaid yn anfon ffurflenni hysbysiad o newid yn dangos trywydd archwilio clir a'r broses o benderfynu mewn perthynas â'r addasiadau a'r llithriant sydd ar gael. Mae pob prosiect wedi derbyn sgôr COG i nodi risgiau.

Cyflwynwyd rhaglen fanwl yn nodi'r holl wariant i'r cydweithwyr, gan nodi'r holl wariant / tanwariant yn erbyn yr holl elfennau. Y rhesymau dros y tanwariant yw oedi o ran recriwtio, prosesu a hawlio a therfynau amser gosod prosiectau sy'n arafach na'r disgwyl.

Yn ogystal â hyn, mae buddsoddiadau mewn cynlluniau sy'n cefnogi Gofalwyr Di-dâl yn cynrychioli 21% o gyllid £7M LIC, sy'n sylweddol uwch na tharged LIC o 5% ac mae buddsoddiadau mewn cynlluniau Gwerth Cymdeithasol yn 15% o gyllid £5M LIC, ychydig yn is na tharged LIC o 20%.

Holodd LR pa mor hyderus yw'r rhanbarth o ran y cynlluniau llithriant ac y bydd cyllid y flwyddyn gyntaf yn cael ei wario erbyn diwedd Mawrth.

Nododd SG hyder yn yr holl gynlluniau â sgôr COG gwyrdd, yn dangos sut fydd y cyllid yn cael ei wario. Mae'r rhanbarth hefyd yn addasu cyllid yn erbyn y cynlluniau gyda gorwariant sylweddol ac mae elfen o ansicrwydd gyda chynlluniau sydd â sgôr COG oren. Rhagwelir y bydd y cynlluniau Oren yn symud i sgôr COG Gwyrdd, drwy ffurflen hysbysiad o newid ar gyfer pob cynllun.

Cydnabu SG y gwaith allweddol a gwblhawyd gan y Trydydd Sector hefyd, gyda chyfleoedd i gynyddu gwaith yn cael ei ystyried bob amser. Mae'r tîm rhanbarthol yn ystyried y llithriant, ac mae'n cael ei fonitro'n ofalus wrth i'r ffurflenni hysbysiad o newid gyrraedd gan bartneriaid a bydd yn cael ei gynnwys yn adroddiad y chwarter nesaf.

Holodd ST am y broses i gydweithwyr Trydydd Sector wneud cais am unrhyw danwariant ac eglurder ar y pwynt cyswllt, ac fe gytunodd SG i ddarparu enw cyswllt ar gyfer pob ardal.

Roedd BPRhGC yn cytuno:

- Nodi sefyllfa'r RIF ar ddiwedd Hydref 2022
- I flaenoriaethu cynllunio llithriant a chytuno ar gynlluniau erbyn diwedd Ch3 fan bellaf.

## 7 Adroddiad Llywodraethu Dementia

Derbyniodd y bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan SG ar y trefniadau llywodraethu dementia rhanbarthol arfaethedig, gan gynnig newid i strwythur llywodraethu dementia i wella y broses o wneud penderfyniadau partneriaeth strategol a darparu gwell trefniadau goruchwylio.

Eglurodd SG bod rôl y Grŵp Llywio Dementia wedi wynebu trafferthion yn ddiweddar o ran darparu cyfeiriad strategol effeithiol a throsolwg oherwydd newid yn y rôl o grŵp datblygu strategol i grŵp gweithredu a darparu strategaeth. Y rheswm dros y newid yw galluogi symud ymlaen â gwaith rhanbarthol mewn modd sy'n fwy effeithiol gyda gwell penderfyniadau a throsolwg partneriaeth strategol, a fydd yn ei dro yn atgyfnerthu gwaith partneriaeth a gwella cyfathrebu ac integreiddio gwasanaethau dementia ar draws Gogledd Cymru.

Byddai aelodaeth y grwpiau gweithredol a strategol yn cynnwys aelodau presennol y Grŵp Llywio Dementia (a chynrychiolwyr ychwanegol PBC) heb fod angen ymrwymiad ychwanegol o ran amser gan swyddogion partner.

Byddai Grŵp Strategol Dementia yn cwrdd yn chwarterol, yn cynnwys penaethiaid gwasanaeth, ac yn goruchwylio gwaith y Grŵp Gweithredol.

Byddai Grŵp Gweithredol Dementia yn cyfarfod bob deufis, yn cynnwys aelodaeth rheolwyr gweithredol, ac yn cymryd cyfrifoldeb am weithrediad a darpariaeth ffrydiau gwaith DAP a MAS, Cynllun Gweithredu Strategaeth Dementia GC a Safonau Dementia Cymru Gyfan.

Roedd BPRhGC yn cytuno:

- I nodi'r newid i waith y Grŵp Llywio Dementia Rhanbarthol.
- Cymeradwyo'r cynnig i newid strwythur llywodraethu dementia rhanbarthol i wella y broses o wneud penderfyniadau partneriaeth strategol a darparu gwell trefniadau goruchwylio.

## 8 Cylch Gorchwyl Grŵp Arweinyddiaeth

Cyflwynodd CR y wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd o ran Cylch Gorchwyl y Grŵp Arweinyddiaeth, a ddeilliodd yn dilyn newidiadau yn strwythur arweinyddiaeth BIPBC.

Roedd y prif newidiadau a nodwyd yn y Cylch Gorchwyl yn cynnwys:

- Aelodaeth: Aelodaeth BIPBC ychwanegol i adlewyrchu rolau newydd Cyfarwyddwr Cymunedol Iechyd Integredig, ac mae dau aelod newydd o BIPBC wedi'u creu:
  - Dirprwy Gyfarwyddwr BIPBC ar gyfer Iechyd Cyhoeddus
  - Rôl ar y Cyd BIPBC rhwng Cyfarwyddwr Ymgysylltiad a Chyfathrebu Partneriaethau a Chyfarwyddwr Cynorthwyol Strategaeth a Chynllunio Iechyd.
- Cworwm : Mae cworwm y cyfarfod wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu aelodaeth ychwanegol gan BIPBC, gyda'r gofyn bod angen pedwar aelod o'r ALl a PBC, mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar bresenoldeb mewn cyfarfodydd, ond yn gynrychiolaeth decach wrth wneud penderfyniadau.
- Defnydd o ddirprwyon: Dylai bod y defnydd o ddirprwyon yn rhywbeth prin a bydd yn cael ei fonitro, gyda defnydd gormodol o ddirprwyon yn cael ei adolygu a'r mater yn cael ei godi gyda'r sefydliad partner. Bydd hyn yn darparu sicrwydd i bartneriaid bod yr unigolion cywir yn bresennol wrth wneud penderfyniadau.
- Nodiadau cyfarfod y Grŵp Arweinyddiaeth - yn cael eu dosbarthu'n fisol i'r BPRh er gwybodaeth yn unig, a'u dosbarthu i'r grŵp Penaethiaid Oedolion a'r grŵp Penaethiaid Plant i weithredu'r penderfyniadau.

Mae'r newidiadau uchod hefyd wedi'u gweithredu mewn perthynas ag adborth gan aelodau'r BPRhGC bod penderfyniadau wedi'u gwneud gan y Grŵp Arweinyddiaeth cyn cyflwyno adroddiadau i'r BPRh. Bydd y RhGD hefyd yn cael ei ddefnyddio gan y Grŵp Arweinyddiaeth i wneud penderfyniadau strategol ar eitemau sydd angen eu trafod yn y Grŵp Arweinyddiaeth, ac unrhyw eitemau y gellir eu cyflwyno'n uniongyrchol i'r BPRh, i wella'r broses o wneud penderfyniadau a chaniatáu i'r BPRh wneud penderfyniadau.

Diolchodd aelodau'r BPRhGC i'r tîm rhanbarthol am weithredu'r newidiadau i'r Cylch Gorchwyl, a fydd yn cynorthwyo i sicrhau bod cydweithredu'n fwy tryloyw fel partneriaeth.

Holodd ST pam nad oedd aelodaeth y Grŵp Arweinyddiaeth yn cynnwys cynrychiolydd o'r trydydd sector ac eglurodd CR y sefydlwyd y Grŵp Arweinyddiaeth i ddarparu trosolwg gweithredol o'r ffrwd waith a chynnig goblygiadau ymarferol, gan herio adroddiadau cyn eu cyflwyno i'r BPRh.

Roedd BPRhGC yn cytuno i gymeradwyo'r Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Grŵp Arweinyddiaeth.

## 9 BPRhGC - Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Drafft (RhGD) 2022-23

Cyflwynodd CR Gynlluniau Gwaith i'r Dyfodol y BPRhGC; Rhagfyr 22 - Mawrth 2023 ac Ebrill 2023-Mawrth 2024, yn dilyn trafodaeth yn y BPRh diwethaf lle y cytunwyd y byddai'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn cael ei ailgyflwyno i ddarparu strwythur o eitemau sydd i ddod a chyfle i'r holl aelodau gyfrannu at y rhaglen / trafodaeth yn y dyfodol.

Roedd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn darparu gwybodaeth am gyfarfodydd y dyfodol, eitemau arfaethedig ar gyfer y rhaglen, yn rhithiol neu wyneb yn wyneb. Eglurodd CR y byddai cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cael eu trefnu bob chwarter, a byddent yn gyfarfodydd byrrach er mwyn caniatáu amser teithio i'r cyfarfod ac oddi yno.

Roedd y RhGD yn cynnwys rhestr o gyflwyniadau blaenorol ac roedd gofyn i aelodau'r BPRh ystyried a chynghori a oedd angen derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am y rhain yn y 3 -6 mis nesaf.

Roedd adborth yr aelodau yn gofyn bod y BPRhGC yn cynnwys cyfle i gael trafodaethau strategol ar y rhaglen, ynglŷn â'r canlynol:

- Sut mae gwasanaethau yn cael eu darparu ar draws Gogledd Cymru - a bod yr aelodau'n ystyried beth fyddai'n ddefnyddiol o ran gwaith partneriaeth
- Cymell y rhaglen gan amcanion a bod pob adroddiad yn nodi'n glir sut mae hyn yn gymorth i gyflawni amcan y BPRh.
- Deall y pwysau y mae gwahanol bartneriaid yn eu hwynebu - heriau drws ffrynt PBC a buddsoddi mewn gwasanaethau cymunedol.

Awgrymwyd bod yr eitemau uchod yn cael eu trafod yn y cyfarfod wyneb yn wyneb nesaf ym mis Mawrth, erbyn hynny dylai bod y wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Ardal ar gael i ddarparu'r strategaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf, a bod y BPRh yn cytuno ar ei amcanion strategol.

Roedd yr eitemau eraill ar y rhaglen yn cynnwys:

- Llywodraethu a Fframwaith - trafodaeth BPRh ar newid cadeirydd ac is-gadeirydd
- Cynnig llais y dinesydd fel rhan o'r drafodaeth a chyd-gynhyrchu.

Roedd deiliaid portffolio yn credu y byddai gweithio mewn modd sy'n fwy strategol yn eu galluogi i gefnogi gwaith y BPRh mewn modd sy'n fwy unedig, yn enwedig wrth gyfarfod gyda Gweinidogion LlC. At hynny, byddai galluogi Aelodau Etholedig i drafod rhwystrau a rhannu arferion da ar draws y rhanbarth yn fuddiol gyda gweithwyr cyfatebol ar draws GC i sicrhau bod pawb yn gwneud eu gorau ar gyfer gwaith y Bwrdd, ac fe gytunodd CR i drefnu cyfarfod gydag Aelodau Etholedig yr Awdurdodau Lleol i drafod ymhellach.

*Cam Gweithredu*

- Rhaglen mis Mawrth - RW

## 10 Y wybodaeth ddiweddaraf am BIPBC

Cyflwynodd GH y wybodaeth ddiweddaraf am BIPBC i'r Bwrdd:

- Y wybodaeth gorfforaethol ddiweddaraf - GH yn swydd Prif Weithredwr Dros Dro, cynllunio i recriwtio Prif Weithredwr yn y Flwyddyn Newydd.
- Cymunedau Iechyd Integredig - Penodiadau mis Ionawr:
  - Cyfarwyddwr Cymunedau Iechyd Integredig (Dwyrain) - Michelle Green yn dechrau 4.1.2023
  - Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol - Karen Higgins
  - Penodiadau rôl Uwch Gyfarwyddwr Meddygol arall i ddod.
- Streic y GIG - bydd y streicio sydd i ddod yn effeithio ar yr holl bartneriaid, gyda chynlluniau cadarn yn eu lle i reoli effaith streic y GIG a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Gofynnir i'r cyhoedd wneud penderfyniadau synhwyrol a bydd gwasanaeth dirprwyo yn ei le i reoli argyfyngau dwys.
- Rhaglen Frechu - gwelwyd cynnydd sylweddol ac fe gymerodd GH y cyfle i ddiolch i'r holl bartneriaid am eu cefnogaeth barhaus.

Hysbyswyd cydweithwyr y BPRh am:

- Ymgyrch gyfathrebu 111, gan gyfeirio y rhai sy'n ffonio at y gwasanaeth mwyaf priodol.
- Gwybodaeth gwefan 111 am hunan-ofal, lansio gwasanaeth '111 Pwyswch 2' - ffordd newydd o gael mynediad at gefnogaeth iechyd meddwl a lles.
- Pwysau sylweddol ar y Gwasanaeth Ambiwlans a phob agwedd o ofal iechyd o ganlyniad i effaith y cyfryngau yn sgil Strep A.

## 11 Datgan Diddordeb BPRh - Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaeth

Eglurodd CR ganlyniadau Panel Cyfoedion BPRh yn ddiweddar ar gyfer Datganiad Diddordeb ar gyfer sedd i Ddefnyddiwr Gwasanaeth ar y bwrdd. Mae'r panel yn ystyried aelodau sy'n gallu defnyddio eu rhwydwaith eang o brofiadau eu hunain gyda sgiliau dylanwadu. Cytunodd y panel y dylid penodi Mr. Roger Seddon, a fydd yn derbyn sedd Defnyddiwr Gwasanaeth ar y BPRh o fis Ionawr 2023 am gyfnod o 2 flynedd.

Cytunodd y BPRhGC y dylid cymeradwyo'r penodiad i'r Bwrdd.

## 12 Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf – Tachwedd 2022

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod 11.11.2022 yn gywir a bod yr holl gamau gweithredu wedi'u cymryd.

## 13 Unrhyw Fater Arall

Is-gadeirydd(ion) BPRhGC

Eglurodd CR bod tymor presennol y cadeirydd yn dod i ben ym mis Mawrth 2023, a bydd yr is-gadeirydd yn derbyn rôl y Cadeirydd o fis Ebrill 2023 am gyfnod o 2 flynedd.  Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r BPRhGC ym mis Ionawr ar gynnig i'w drafod a bydd yn cynnwys y broses o enwebu is-gadeirydd a thrafodaeth a ddylid penodi dau is-gadeirydd er mwyn lliniaru problemau yn y dyfodol, h.y. newidiadau gweinyddol yn dilyn etholiad ac ati, a sut y dylid rheoli'r cyfnod o bontio o is-gadeirydd i gadeirydd.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**: Dydd Gwener 13 Ionawr 2023